

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 15fed Mehefin, 2022 at 10.00 am

YN County Councillors: Angela Sandles, Louise Brown and
BRESENNOL: Alistair Neill

CYNYRCHIOLWYR CYNGHORWYR SIROL:

County Councillor L. Brown (In the Chair)
County Councillor A. Sandles
County Councillor A. Neill (substituting for County Councillor P. Pavia)

CYNYRCHIOLWYR FFYDD:

Mr. N. Pryor
Ms. R. Morteo
Mrs B. Quinlan
Mrs S. Cave

CYNYRCHIOLWYR ATHRAWON:

Mrs. C. Rhodes

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democraidd
Hayley Jones	Curriculum Partner (SACs and RVE)
Geraint Edwards	Solicitor

APOLOGIES:

Councillors Martyn Groucutt

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Nodwyd bod Kate Wilding wedi anfon ymddiheuriadau am y cyfarfod a'i bod hefyd wedi ymddiswyddo fel cynrychiolydd Athrawon gan ei bod yn gadael ei swydd ddysgu yn Sir Fynwy.

2. Penodi Is-gadeirydd

Etholwyd y Cynghorydd Sirol L. Brown fel Is-gadeirydd

3. Datganiadau o Fuddiant

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 15fed Mehefin, 2022 at 10.00 am

Eitem 6: Datganodd y Cyngorydd Sirol L. Brown fuddiant rhagfarnol fel enwebai ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC, tynnodd yn ôl ac ni chymerodd unrhyw ran yn y penderfyniad.

4. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

5. Diweddariad gan yr Ymgynghorydd Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Rhoddodd Hayley Jones, Ymgynghorydd Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ddiweddariad fel a ganlyn:

1) CCYSAGauC:

- Diolchodd y CYSAGau am ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gyfansoddiad CCYSAGauC.
- Mae CCYSAGauC yn diweddarau ei wefan ac yn datblygu mwy o bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae CCYSAGauC wedi ychwanegu adnoddau gydag ymwadiad nad yw adnoddau wedi cael eu cymeradwyo.
- Mae CYSAGauC wedi cael gwybodaeth am arolwg Fforwm Ewropeaidd ar gyfer Athrawon Addysg Grefyddol.

2) CBAC/Cymwysterau Cymru:

- Gwnaed gwelliant pellach i TGAU Astudiaethau Crefyddol, trwy ryddhau'r thema o flaen llaw ar gyfer y cwestiynau D ar draws Uned 1 gyfan; Bydd hyn o fudd i bob myfyriwr a safodd yr arholiad yng nghyfes yr Haf.

3) Estyn: Mae uchafbwyntiau adborth Estyn yn cynnwys:

- Nid yw Estyn yn monitro nac yn sicrhau cydymffurfiaeth
- Os gwelir ychydig neu ddim Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd yn cael ei adrodd arno, fel gydag unrhyw ddisgyblaeth neu bwnc allweddol o fewn y cwricwlwm
- Nid yw'r Cymhwyster Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ar ei ben ei hun, yn bodloni'r gofynion ar gyfer y maes llafur y cytunwyd arno ar hyn o bryd
- Arolygir Addoli ar y Cyd ar wahân i AG (Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg)
- Mae angen ystyried sut y bydd CYSAG yn defnyddio gwybodaeth arolygu Estyn yn ei phrosesau adolygu ei hun wrth symud ymlaen. Pwnc awgrymedig ar gyfer Tymor yr Hydref.

4) Llywodraeth Cymru:

- Rhaid i CYSAGauC adolygu eu Cyfansoddiad a'u dogfennau cysylltiedig yn unol â chwricwlwm newydd Cymru, gan symud i fod yn Gynghorau

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 15fed Mehefin, 2022 at 10.00 am

Ymgynghorol Sefydlog dros Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYS) o fis Medi 2022.

- Mae canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu cyhoeddi ar Hwb yn amodol ar rai gwelliannau bach. Mae cysylltiadau uniongyrchol yn ein maes llafur cytûn. Os oes unrhyw welliannau mawr i'r canllawiau neu'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol, bydd hyn yn hysbys i CYSAGau, yn cael eu cyhoeddi a byddai angen Cynhadledd Maes Llafur i gytuno arno ymhellach er mwyn cymeradwyo'r newidiadau. Byddai newidiadau o'r fath yn cael eu nodi ar dudalen lanio gwefan Cwricwlwm i Gymru.
- Mae cyfres o adnoddau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn aros i gael ei chyhoeddi ac yn ogystal â Hwb. Mae fideo ar gael am fwy o wybodaeth.

5) GCA a CGM:

- Dysgu Proffesiynol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Bydd cyfres o adnoddau yn cael eu lansio ym mis Medi i gyd-fynd ag adnoddau Llywodraeth Cymru. Bydd rhywfaint o ddysgu proffesiynol wyneb yn wyneb yn cael ei ddarparu, a bydd darparwyr allanol yn cynorthwyo ysgolion gyda dylunio'r cwricwlwm a dilyniant gydag enghreifftiau o addysgeg dda.
- Cylchlythyr: Penderfynwyd ymgorffori gwybodaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAG yng Nghylchlythyr Tymor y Dyniaethau. Gofynnwyd i CYSAG feddwl am awgrymiadau i'w cynnwys yn y cylchlythyr.
- Cyfryngau Cymdeithasol: Mae gan dudalen Twitter y Dyniaethau gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg da, ac enghreifftiau gan ysgolion.
- Gofod Timau'r Dyniaethau: mae diweddariadau a gwybodaeth am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAG ar gael yma.
- Cystadleuaeth Celfyddydau Ysbrydol. Mae'r GCA yn cydweithio gyda'r Eglwys yng Nghymru ar y gystadleuaeth.
- Bydd adroddiadau Estyn yn cael eu dosbarthu wrth iddynt ddod ar gael.

Ar ran ymarferwyr, diolchodd Charlotte i Hayley am ei chymorth a'i chefnogaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yr un mor berthnasol mewn ysgolion Catholig. Nid yw canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan yr Eglwys Gatholig wedi cael ei gyhoeddi eto. Cadarnhawyd bod cysylltiad â'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Catholig yn y ddogfen Maes Llafur y cytunwyd arni sydd i fod i gael ei gymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod nesaf.

O ran Estyn, mae disgwyl y bydd adroddiadau yn cael eu derbyn er mwyn i CYSAG adolygu. Mae adroddiadau arolygu Adran 50 ar stop er mwyn adolygu'r system mewn ysgolion. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei ddarparu maes o law.

Codwyd cwestiwn a gafodd ei gadarnhau bod Aelodau CYSAG yn gallu cael mynediad at gyrsiau ac adnoddau dysgu proffesiynol.

Trefnwyd Diwrnod Addysg yn ddiweddar gan Yr Eglwys yng Nghymru ac fe recordiwyd y cyflwyniadau; gellir darparu'r dolenni., os oes angen.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 15fed Mehefin, 2022 at 10.00 am

6. Busnes CYSAG Cymru

1. Ethol Is-gadeirydd

Trafodwyd hyn gan bob Grŵp, a chynhaliwyd pleidlais gydag un bleidlais i bob grŵp: Yn dilyn y bleidlais hon, cefnogodd CYSAG Sir Fynwy enwebiad Vicky Barlow ar gyfer swydd Is-gadeirydd.

2. Etholiadau'r Pwyllgor Gwaith

Charlotte Rhodes aeth â'r Gadair am yr eitem hon. Datganodd y Cyngorydd Sirol L. Brown fuddiant rhagfarnol fel enwebai ar gyfer y Pwyllgor Gwaith, tynnodd yn ôl ac ni chymerodd unrhyw ran yn y penderfyniad.

Nodwyd eglurhad gan CCYSAGauC nad oes rheol galed a chyflym a gall CYSAG bleidleisio dros enwebeion ar gyfer Pwyllgor Gwaith yn wahanol i'w enwebiad ar gyfer Is-gadeirydd.

Trafodwyd hyn gan bob Grŵp, a chynhaliwyd pleidlais gydag un bleidlais i bob grŵp: Yn dilyn y bleidlais, pleidleisiodd CYSAG Sir Fynwy o blaid 1) Cyngorydd Sirol L. Brown, 2) Mathew Maidment a 3) Marged Williams / Tyler Lorraine Saunders.

3. Gwelliannau Cyfansoddiad

Nodwyd y rhain.

4. Cyfarfod Haf a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol: Dydd Mercher 29 Mehefin. Bydd y prif gyfarfod arferol yn cael ei gynnal yn y bore, ac yna'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. 3 lle i gynrychiolwyr ynghyd â'r Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mynegodd y Cyngorydd Sirol Brown ddiddordeb mewn mynychu'r cyfarfod. Bydd y Clerc yn anfon e-bost i weld a oes unrhyw Aelodau CYSAG eraill am fynychu.

7. Unrhyw Fater Arall

- 1) Mae'r Adroddiad Maes Llafur y cytunwyd arno wedi ei ysgrifennu a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 23^{ain} Mehefin 2022.

8. Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd dilynol

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 15fed Mehefin, 2022 at 10.00 am

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

- CYSAG 15^{fed} Chwefror 2022: diwygio Charlotte Skinner i Charlotte Rhodes.
- Cynhadledd Maes Llafur Cytûn 23^{ain} Ebrill 2022: Diwygiwyd a chyfunwyd y geiriad isod fel a ganlyn

Eitem 3: Cafwyd croeso cynnes i ymatebion Llais y Disgyblion a holwyd a ellid cynnwys y rhain fel atodiad.

Eitem 3: Cytunwyd y byddai defnyddio cyflwyniadau Llais y Disgyblion yn amodol ar dderbyn caniatâd yr ysgolion a gyfranodd. Mae hefyd yn bwysig bod yn sicr ein bod wedi ystyried y farn a fynegwyd cyn eu cynnwys fel deunydd ychwanegol. Gan fod cyflwyniadau gan ddwy ysgol yn unig, trafodwyd y gellid arolygu pob ysgol

Eitem 5: Trafodwyd efallai y byddai'n well oedi cylchrediad ffurflen Google i bob ysgol yn Sir Fynwy.

Eitem 3: Cafwyd croeso cynnes i ymatebion Llais y Disgyblion, ac yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â chynnwys yr ymatebion fel atodiad ar hyn o bryd.

Cytunwyd y byddai defnyddio cyflwyniadau Llais y Disgyblion yn amodol ar dderbyn caniatâd yr ysgolion a gyfranodd. Mae hefyd yn bwysig bod yn sicr ein bod wedi ystyried y farn a fynegwyd cyn eu cynnwys fel deunydd ychwanegol. Gan fod cyflwyniadau oddi wrth ddwy ysgol yn unig, trafodwyd y gellid arolygu pob ysgol ond penderfynodd y byddai'n well oedi cylchrediad arolwg ffurflen Google i bob ysgol yn Sir Fynwy er mwyn caniatáu peth amser i'r maes llafur wreiddio.

9. Cadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf sef 20fed Gorffennaf 2022

Cytunwyd i ganslo'r cyfarfod ar yr 20^{fed} Gorffennaf 2022.

Cytunwyd y byddai cofnodion drafft cyfarfod CCYSAGauC yr Haf yn cael eu dosbarthu pan gaiff eu derbyn. Yn ogystal, bydd unrhyw ddiweddariadau cwricwlwm yn cael eu hanfon drwy'r post.

Gofynnwyd am gysylltu â'r cymdeithasau proffesiynol ynghylch cynrychiolwyr athrawon er mwyn llenwi swyddi gweigion.

Y cyfarfod nesaf fydd 26^{ain} Hydref 2022 am 10.00am.

Y cyfarfod diwedd yn 11.12 am